

Ysbaddu eich ci

Mae ysbaddu'n ffordd ddi-boen o leihau poblogaeth cŵn crwydr, atal miloedd o gŵn bach nad oes eu hangen rhag cael eu geni bob blwyddyn neu gael eu gadael yn greulon neu eu dinistrio'n ddiangen.



Beth yw ysbaddu?

Mae 'ysbaddu' yn golygu tynnu organau atgenhedlu mewn cŵn yn llawfeddygol. Fe wnaiff y rhan fwyaf o filfeddygon ysbaddu cŵn o'r ddau ryw o tua 4 mis oed, er y gellir ei wneud yn unrhyw oed. Os oes arnoch angen cyngor ar ba bryd i ysbaddu eich ci, cysylltwch â'ch milfeddyg.

Beth yw manteision ysbaddu fy nghi?

Er lluo o fythau ar y pwnc, bydd arbenigwyr milfeddygol yn cadarnhau fod ysbaddu â llawer o fanteision cadarnhaol i fywyd anifail anwes:

- Nid yw ysbaddu'n achosi anifeiliaid anwes tew, ond bydd metaboledd ci yn arafu ar ôl iddo gael ei ysbaddu. Mae hyn yn golygu bydd angen rhoi llai o fwyd iddo nag o'r blaen.
- Nid yw'n beth 'da' i ast gael o leiaf un dorllwyth cyn cael ei hysbaddu. Os rhywbeth mae beichiogrwydd yn fwy o risg iddyn nhw na phe baen nhw wedi eu hysbaddu ar ôl y tymor cyntaf.
- Nid yw ysbaddu'n newid personoliaeth ci, ond gall ymddygiad digroeso beidio. Gall hyn gynnwysfel marcio tiriogaeth yn ormodol; crwydro i ffwrdd o'r cartref; distrywgaredd, a mowntio ymysg cŵn gwryw.
- Mae ysbaddu'n lleihau'r risg o heintiadau'r groth a beichiogrwydd ffug mewn anifeiliaid anwes benywaidd hŷn. Mae'n eu harbed hefyd rhag hwyliau ansad yn ystod tymor.
- Nid yw ysbaddu'n lleihau effeithlonrwydd ci sy'n gweithio. Mewn gwirionedd mae'n eu rhyddhau rhag newidiadau hormonaidd a rhwystredigaethau, ac felly fe fyddan nhw'n gallu canolbwyntio'n well ar eu gwaith.

Nid yw ysbaddu'n gostus iawn ac mae'n llawer rhatach na bwydo torllwyth o gŵn bach am oes. Holwch eich milfeddyg ynglŷn â chostau.

I gael cyngor pellach ar ficrosglodi neu ysbaddu, cysylltwch â ni ar:

Llinell Cymraeg: 01824 706100

Llinell Saesneg: 01824 706101